# Priddoedd

## Cloddio, Trin, Mesur



Y rhaw yw un o'r teclynnau pwysicaf ar y fferm i reoli'r pridd. Cloddiwch dwll i gynnal tri phrawf allweddol yn enwedig os yw'r cae yn mynd i gael ei ail-hau, yn tanberfformio, wedi'i stocio'n drwm neu os oes llawer o draffig wedi pasio drwyddo mewn amodau gwlyb. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu'r camau sydd angen eu cymryd i gynyddu'r cnwd a gwella'i berfformiad.

- Edrychwch ar strwythur y pridd i asesu cywasgiad y pridd
- Dadansoddwch samplau i fesur cemeg y pridd i gynllunio sut y byddwch yn rheoli maethynnau'r pridd
- Cyfrwch y mwydod i asesu iechyd biolegol y pridd





### Asesu Strwythur y Pridd

Mae'r ffordd y mae'r gronynnau tywod, llaid, a chlai yn glynu at ei gilydd yn diffinio strwythur y pridd.

Mae cywasgu yn effeithio ar strwythur y pridd ac yn golygu bod llai o ddŵr ac aer yn bresennol. Mae hefyd yn ei gwneud yn anos i blanhigion fwrw eu gwreiddiau, yn lleihau cynnyrch porfa, bywyd y gwndwn a hyd y tymor tyfu, ac yn cynyddu'r costau.

- Defnyddiwch raw i dorri tair ochr sgwar, gan adael y bedwaredd ochr, yna codwch y talp o bridd allan
- Edrychwch ar strwythur yr ochr o'r twll nas torrwyd a'r ochr gyfatebol ar y talp o bridd
- Edrychwch am graciau llorweddol, gwreiddiau bas, neu wreiddiau'n tyfu tua'r ochr, arogl hen ac annymunol, smotiau oren neu lwyd, a chlymau talpiog dros 10 mm, sydd ddim yn torri o'u gwasgu rhwng eich bys a'ch bawd, a haenau solet a diffinedig o bridd. Nodwch eu dyfnder
- Cymharwch dyllau o ganol cae gyda'r rhai wrth fôn y clawdd lle mae'n anhebygol y bydd y pridd wedi'i gywasgu
- Tarwch flaen llafn cyllell boced ar ochrau'r twll i ganfod yr haenau cywasgedig
- Tynnwch luniau a chreu cofnod maes

### Dadansoddi samplau o bridd

Mae pH, ffosffad, potash a magnesiwm yn elfennau allweddol ar gyfer cynllunio maethynnau pridd yn effeithiol.

Wrth reswm, mae ansawdd y canlyniadau yn dibynnu ar ansawdd y sampl. I sicrhau eu bod yn gynrychiadol, cymerwch 15-30 sampl ar ddyfnder o 7.5 cm (samplau craidd neu sleisiau â rhaw) wrth gerdded ar draws cae/rhan o gae. Os yw gwead, lliw neu'r hanes cnydio yn amrywio ar draws y cae, cymerwch is-samplau ar wahân.

### Cyfri'r Mwydod

Mae nifer y mwydod yn arwydd defnyddiol o iechyd y pridd.

- Cloddiwch dwll lled a dyfnder eich rhaw
- Cymerwch y talp o bridd o'r twll a'i falu gan ofalu eich bod yn gwahanu'r haenau pridd/glaswellt
- Cyfrwch a chofnodi nifer y mwydod. Cymerwch dymheredd y pridd
- Cyfrwch y mwydod yr un adeg bob blwyddyn i chi allu cymharu'r gwahanol flynyddoedd (y gwanwyn neu'r hydref yw'r amser gorau, pan fydd y pridd yn llaith)